| CYD-BWYLLGOR PROSIECT GWYRDD<br>Dydd Mawrth, 21 Mehefin 2022, 11.00 am |
|---|
| **LLEOLIAD: Cyfarfod o Bell** |
| **Yn bresennol**: |
| **Aelodau Etholedig:**<br>**Cynghorydd Caro Wild, Caerdydd (Cadeirydd)**<br>**Cynghorydd Chris Weaver, Caerdydd**<br>**Councillor Jamie Pritchard, Caerffili**<br>**Councillor Chris Morgan, Caerffili**<br>**Councillor Rachel Garrick, Monmouthshire**<br>**Councillor Catrin Maby, Monmouthshire**<br>**Councillor Yvonne Forsey, Casnewydd**<br>**Councillor Mark Wilson, Bro Morgannwg**<br>**Councillor Ruba Sivagnanam, Bro Morgannwg** |
| **Swyddogion:**<br><br>**Matt Wakelam**<br>**Sian Humphries**<br>**Andrew Williamson**<br>**Colin Smith**<br>**Marc Falconer**<br>**Carol Touhig**<br>**Hayley Jones**<br>**Laura Carter**<br>**Anna Rees**<br>**Julie Baker**<br>**Marcus Lloyd**<br>**Lucy Paterson**<br>**Silvia Gonzalez Lopez**<br>**Andrea Redmond** |

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Penodi Cadeirydd (DS o dan Gytundeb Gweithio ar y Cyd 2, daw'r cadeirydd o'r Awdurdod Lletyol - y Cydbwyllgor i gadarnhau'r penodiad)**<br>Nodwyd. |
| 2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Dim wedi'u derbyn. |
| 3 | **Datgan Buddiannau**<br>Dim wedi'u derbyn. |
| 4 | **Aelodaeth o'r Cydbwyllgor - nodi'r 2 aelod wedi'u hethol i gynrychioli pob Awdurdod.**<br>Nodwyd. |
| 5 | **Mabwysiadu Rheolau Gweithdrefn y Cydbwyllgor wedi'u diweddaru.**<br>Cyfeiriwyd yr Aelodau at gamgymeriad teipograffig bach a oedd yn ymwneud â Chytundeb Gweithio ar y Cyd 1 yn hytrach na Chytundeb Gweithio ar y Cyd 2.<br><br>Nodwyd. |
| 6 | **Cylch gorchwyl - nodi'r cylch gorchwyl fel y nodir yn Atodlen 2 Cytundeb Gweithio ar y Cyd 2**<br>Nodwyd. |
| 7 | **Cofnodion**<br>Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir. |
| 8 | **Materion yn Codi**<br>Dim. |
| 9 | **Adroddiad Diweddaru a Briffio'r Cydbwyllgor**<br>Cafodd yr Aelodau gyflwyniad yn rhoi gwybodaeth am y Cydbwyllgor ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau.<br><br>Roedd yr Aelodau o'r farn ei fod yn gyflwyniad diddorol iawn a gofynnon nhw am fwy o wybodaeth am gynnydd y rhwydwaith gwres. Dywedodd y Swyddogion fod y rhwydwaith gwres yn mynd i'r ddaear yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Rhoddwyd cyllid gan bartneriaid allweddol yn y Sectorau Cyhoeddus a Phreifat, felly roedd gwaith ar y gweill. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gweld hyn a chynigiodd y Swyddogion ymweliad iddynt |

| No | Item | Action |
| --- | --- | --- |
| | ynghyd ag ymweliad â Viridor.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau am fanteision y cynllun rhwydwaith gwres, fel pwy fyddai'n manteisio, faint o gartrefi, y lleoliad y mae'n ehangu iddo ac ati. Esboniodd y Swyddogion ei fod yn cael ei fwydo i'r rhwydwaith dosbarthu, ei fod yn cael ei wasgaru trwy'r Grid Cenedlaethol a'i fod yn disodli'r carbon/glo/nwy a gynhyrchir.<br><br>Amlinellodd y Swyddogion yr Adroddiad Diweddaru i'r Aelodau a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am gyfansoddiad y panel sy'n cytuno ar y Grantiau Cymunedol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y panel yn cynnwys Andrew Williamson, cynrychiolydd o Viridor, y Cynghorydd Bob Derbyshire fel cynrychiolydd o Gaerdydd a 2 gynrychiolydd cymunedol arall. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod cynrychiolydd o Gaerdydd yn unig ac o'r farn y gallai fod yn fwy synhwyrol cael cynrychiolwyr o fwy o bartneriaid yr Awdurdod Lleol. Cytunodd y Swyddogion i ystyried hyn ac edrych yn fwy ar y cyfansoddiad a gweld pa newidiadau sydd angen eu gwneud.<br><br>Dywedodd yr Aelodau fod problem gyda'r ddolen ar gyfer y cais am Grantiau Cymunedol ac roeddent o'r farn y gallai hyn fod wedi cael effaith ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd. Nodwyd bod 12 cais o Gaerdydd a 2 o Gaerffili yn unig. Cytunodd y Swyddogion fod mwyafrif y ceisiadau yn dod o Gaerdydd, ond dywedon nhw eu bod yn ceisio annog ceisiadau ym mhob Cyfarfod y Cydbwyllgor. Rhoddodd y Swyddogion sicrwydd i'r Aelodau nad oedd unrhyw geisiadau wedi'u gwrthod dros unrhyw gais yng Nghaerdydd ac roeddent yn hapus i weithio i wella tryloywder ac i hyrwyddo'r gronfa yn fwy. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod y ddolen bellach yn gweithio.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Gronfa Budd Cymunedol yn disodli'r hen dreth dirlenwi. Esboniodd y Swyddogion nad oedd yn ei disodli, cynllun gorfodol y Llywodraeth oedd yr hen dreth dirlenwi. Mae hyn yn benodol i Viridor ac fe'i cynhwyswyd yn y contract. Cytunodd y Cadeirydd i gyflwyno diweddariad ar hyn yn y cyfarfod nesaf.<br><br>PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad. | |
| 10 | **Datganiad Ariannol Blynyddol heb ei Archwilio ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2022**<br>Rhoddwyd amlinelliad i'r Aelodau o'r adroddiad ar y Datganiad Ariannol Blynyddol heb ei Archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. | |

| No | Item | Action |
|---|---|---|
| | Nid oedd unrhyw gwestiynau ar yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>i. Bod y Cydbwyllgor yn nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ac yn cymeradwyo cyflwyno'r adroddiad a'r datganiad i'r Cydbwyllgor.<br><br>ii. Awdurdododd y Cydbwyllgor y Cadeirydd i lofnodi'r Datganiad Blynyddol ar ran y Cydbwyllgor, a'i gyflwyniad dilynol i Archwilio Cymru i gychwyn archwiliad 2021/22. | |
| 11 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf - i'w gadarnhau**<br>Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Tachwedd/dechrau mis Rhagfyr ac y byddent yn cael gwybod am y dyddiad maes o law. | |